

# Ymgynghoriad ar Hygyrchedd Gwasanaethau Ar-alw – Crynodeb Cymraeg Clir

## Cyflwyniad

Ofcom yw'r rheoleiddiwr ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu, gan gynnwys teledu a gwasanaethau ar-alw. Rydyn ni'n rheoleiddio amrywiaeth o wasanaethau ar-alw, gan gynnwys gwasanaethau dal-i-fyny fel ITV Hub ac All 4, a gwasanaethau tanysgrifio fel Now TV ac Amazon Prime.

Mae gwasanaethau ar-alw yn dod yn fwyfwy poblogaidd, ond dydyn nhw ddim yn hygyrch i bobl â nam ar y clyw a'r golwg yn aml, oherwydd dydyn nhw ddim yn darparu nodweddion fel is-deitlau, disgrifiadau sain ac arwyddo. 'Gwasanaethau mynediad' yw'r enw a roddir ar y nodweddion hyn.

Rhaid i ddarlledwyr ddarparu gwasanaethau mynediad, ond does dim rheolau tebyg ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-alw eto. Yn 2018, fe wnaethom ni argymhell rheolau newydd i'r Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau dal-i-fyny ac ar-alw.

## Beth oedd yr argymhellion?

Fe wnaethom ni argymhell y dylai darparwyr gwasanaethau ar-alw ddarparu isdeitlau ar 80% o'u rhaglenni, sain-ddisgrifiadau ar 10%, ac iaith arwyddion ar 5%. Dylent wneud hyn cyn pen pedair blynedd i'r rheolau ddod i rym. Dywedom hefyd y dylid cael rhai eithriadau o ran y gofynion hyn:

- lle byddai'n rhy ddrud
- lle na fyddai cynulleidfaoedd yn cael llawer o fudd; a
- lle bod anawsterau technegol sylweddol

## Pam rydyn ni'n ymgynghori nawr?

Mae Llywodraeth y DU wedi gofyn i ni am ragor o fanylion ynglŷn â sut dylai'r rheolau weithio, ac i wneud argymhellion pellach er mwyn iddi allu drafftio'r rheoliadau.

Crynodeb o'n cynigion i ddefnyddwyr yw'r ddogfen ac nid yw'n mynd i'r afael â meysydd sydd o ddiddordeb benodol i ddarparwyr ar-alw (fel sut bydd Ofcom yn dweud wrthynt am y gofynion bob blwyddyn). Mae'r ymgynghoriad llawn ar [gael ar ein gwefan](#).

## Beth nesaf?

Rydym yn croesawu sylwadau ar ein cynigion. A fyddech cystal â'u hanfon atom erbyn 16 Medi 2020, i [vodaccessibility@ofcom.org.uk](mailto:vodaccessibility@ofcom.org.uk)

Byddwn yn ystyried y sylwadau cyn cyhoeddi ein hargymhellion pellach i'r Llywodraeth.

## Eithriadau

Rydyn ni eisoes wedi argymhell y dylid cael eithriadau lle bo'n anghymesur i ddarparwyr fodloni'r gofynion. Ond sut mae cynllunio hyn yn ymarferol?



Mae gwasanaethau ar-alw ar gael ar draws amrywiaeth eang o lwyfannau a dyfeisiau. Er enghraifft, eu gwefannau a'u hapiâu eu hunain, ynghyd â llwyfannau trydydd parti lle mae ganddynt lai o reolaeth, fel Amazon Prime a Sky On-Demand.

### A oes anawsterau technegol sylweddol?

Yn gyffredinol, rydyn ni'n disgwyl i ddarparwyr allu gwneud eu gwefannau a'u hapiâu eu hunain yn hygyrch. Rydyn ni'n cynnig eithriadau ar gyfer unrhyw ddarparwr ar-alw sy'n gallu dangos ei fod wedi gwneud ymdrech resymol i ddarparu gwasanaethau mynediad ar lwyfan trydydd parti, ond wedi bod yn aflwyddiannus.

### A yw cynulleidfa oed yn cael digon o fudd?

Dydyn ni ddim yn credu y dylai darparwyr ar-alw orfod darparu gwasanaethau mynediad ar unrhyw lwyfan sydd â chynulleidfa fach iawn. Gellid mesur hyn fel llai na 0.4% o boblogaeth y DU sydd â mynediad i'r rhyngwyd.

### A yw'r gofynion yn fforddiadwy?

Rydyn ni'n credu y dylid cael eithriadau:

- ar gyfer unrhyw ddarparwr ar-alw sy'n 'gwmni bach' o dan y Ddeddf Cwmnïau;
- lle bo'r gost o fodloni'r gofynion yn fwy nag 1% o drosiant y darparwr.

## **A yw'n achos o ddarparu'r cwbl neu ddim byd o gwbl?**

Os nad yw darparwyr yn gallu fforddio'r gofynion llawn, rydyn ni eisoes wedi argymhell i'r Llywodraeth y dylent gyflawni targedau isdeitlo is, ynghyd â'r targedau llawn ar gyfer arwyddo a disgrifiadau sain.

Os nad yw darparwyr yn gallu fforddio gostwng y targedau, rydyn ni o'r farn y dylent gael eu heithrio o ddarparu gwasanaeth arwyddo lle byddai hynny'n golygu eu bod yn gallu darparu rhywfaint o isdeitlau a disgrifiadau sain yn hytrach na dim byd o gwbl.

## **A ddylid cael eithriadau ar gyfer genres penodol?**

Mae darparwyr yn dweud wrthym ni ei bod yn anoddach gwneud rhai mathau o raglenni yn hygyrch, fel fersiynau dal-i-fyny o'r newyddion. Mae elusennau'n dweud wrthym ni fod pobl â nam ar y clyw neu'r golwg eisiau mwynhau'r un cynnwys â phawb arall. Efallai fod angen i'r rheoliadau ddisgrifio pa genres o raglenni y dylid eu heithrio. Os felly, rydyn ni'n argymhell mai dim ond ar gyfer rhaglenni cerddoriaeth a newyddion y dylid eithrio disgrifiadau sain. Mae llawer o siarad yn y rhaglenni hyn, felly does dim llawer o le i ychwanegu disgrifiadau sain.

Rydyn ni o'r farn fod yr heriau technegol (a'r budd i gynulleidfaoedd) sy'n deillio o wneud genres penodol yn hygyrch yn gallu bod yn wahanol ar gyfer pob gwasanaeth ar-alw. Felly, rydyn ni'n credu y dylem ni allu penderfynu a ddylid eithrio darparwr o orfod darparu gwasanaethau mynediad ar gyfer unrhyw genres ychwanegol.

## **Gofynion arwyddo**

### **Cefndir: beth yw'r rheolau ar gyfer arwyddo ar y teledu?**

Ar y teledu, mae'n rhaid i ddarlledwyr mwy ddarparu gwasanaethau arwyddo ar gyfer 5% o'u cynnwys. Maen nhw'n darparu 'rhaglenni â dehonglydd iaith arwyddion' yn bennaf – sef pan mae arwyddwr yng nghornel y sgrin yn dehongli'r rhaglen yn iaith Arwyddion Prydain (BSL). Ond mae'n rhaid i ddarparwyr llai ddarparu llai o 'raglenni sy'n cael eu cyflwyno drwy iaith arwyddion' – rhaglenni sy'n cael eu cyflwyno'n gyfan gwbl mewn iaith arwyddion – neu roi cyllid i Ymddiriedolaeth Ddarlledu iaith Arwyddion Prydain (BSLBT). Mae BSLBT yn dangos rhaglenni sy'n cael eu cyflwyno drwy iaith arwyddion ar BSL Zone.

### **Sut dylai'r rheolau weithio ar gyfer arwyddo ar-alw?**

Does gennym ni ddim digon o wybodaeth am yr hyn fyddai orau gan ddefnyddwyr BSL ac, wrth gwrs, mae'n well gan wahanol pobl wahanol bethau. Ein cynnig ni yw argymhell y dylai darparwyr ar-alw gael dewis rhwng darparu rhaglenni â dehonglydd iaith arwyddion ar gyfer 5% o'u cynnwys, darparu llai o raglenni â dehonglydd iaith arwyddion ar eu gwasanaeth eu hunain, neu ariannu darparwr

rhaglenni sy'n cael eu cyflwyno drwy iaith arwyddion ar-alw, fel BSLBT. Gallai darparwyr ddewis un o'r opsiynau hyn, neu gyfuniad ohonynt, ond byddai angen iddynt ddangos eu bod wedi ystyried ein 'canllawiau ar arferion gorau'<sup>1</sup> yng nghyswllt arwyddo. Rydyn ni'n bwriadu diweddarau'r canllawiau hyn. I'n helpu ni i wneud hyn, rydyn ni'n bwriadu cynnal arolwg ymysg defnyddwyr BSL ynglŷn â'u dewisiadau.

Rydyn ni hefyd yn credu y dylai darparwyr sydd eisoes yn dangos rhaglenni â dehonglydd iaith arwyddion ar y teledu roi'r rhaglenni hyn â dehonglydd iaith arwyddion ar raglenni sy'n ymddangos ar y gwasanaethau dal-i-fyny wedyn. Byddai hyn yn sicrhau bod rhaglenni â dehonglydd iaith arwyddion ar wasanaethau dal-i-fyny, fel ITV Hub, All 4 a My 5.

## Targedau

Rydyn ni wedi argymhell wrth y Llywodraeth y dylai darparwyr gynnig isdeitlau ar gyfer 80% o'u rhaglenni, disgrifiadau sain ar gyfer 10% ac arwyddo ar gyfer 5% cyn pen pedair blynedd i'r rheolau ddod i rym.

Cyn pen dwy flynedd i'r rheolau ddod i rym, fe wnaethom ni argymhell y dylent ddarparu isdeitlau ar 40% o'u rhaglenni, disgrifiadau sain ar 5% ac iaith arwyddion ar 5%.

## A ddylid cael mwy o dargedau?

Rydyn ni'n cynnig y dylai Ofcom bennu targedau dewisol ar gyfer blynyddoedd 1 a 3. Byddai hyn yn helpu darparwyr i gyflawni'r targedau y mae'n rhaid eu cyflawni yn ôl y gyfraith ar gyfer blynyddoedd 2 a 4.

## Sut mae'r targedau hyn yn gweithio pan mae rhaglenni ar-alw ar gael ar fwy nag un llwyfan?

Er enghraifft, gallai gwasanaeth teledu dal-i-fyny fod ar gael ar wefan, ar ap symudol a drwy apiau ar lwyfannau teledu fel Freeview ac Apple TV.

Rydyn ni'n credu bod dau ddull arall y gallem eu hargymhell i'r Llywodraeth o ran sut gallai'r targedau weithio:

### Beth yw opsiwn 1?

Gall darparwyr ddewis sut maen nhw'n cyflawni'r targedau ar draws eu llwyfannau, ond rhaid iddynt ystyried sut bydd hynny o fudd i gynulleidfaoedd. Felly, gallai darparwyr sicrhau bod mwy o raglenni hygyrch ar gael ar lwyfannau sydd â gwell nodweddion hygyrchedd, a llai o raglenni ar gael ar lwyfannau llai poblogaidd.

---

<sup>1</sup> Atodiad 4 o'n [Cod Gwasanaethau Mynediad – Teledu](#)

### **Beth yw opsiwn 2?**

Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod yr un faint o gynnwys yn hygyrch ar draws eu llwyfannau. Gallai hyn olygu bod llai o raglenni ar bob llwyfan yn hygyrch i ddechrau, ond byddai hyn yn cynyddu dros amser.

### **Beth rydyn ni'n ei gynnig?**

Rydyn ni'n ffafrio Opsiwn 2. Rydyn ni eisiau annog hygyrchedd ar draws yr holl llwyfannau, i'r graddau mwyaf posibl. Rydyn ni'n credu bod hyn yn golygu y bydd pobl yn llai tebygol o fod angen prynu gwasanaethau neu ddyfeisiau newydd i fwynhau cynnwys hygyrch.